**PRIFYSGOL METROPOLITAN CAERDYDD**
**POLISI CADWYNI CYFLENWI MOESEGOL**

CYFLWYNIAD

Mae gan Brifysgol Metropolitan Caerdydd gyfrifoldeb i reoli ei hadnoddau mewn modd cynaliadwy. Mae'r Brifysgol yn cydnabod bod ganddi rwymedigaeth i sicrhau cynaladwyedd cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Wrth gyflenwi gwerth am arian, bydd y swyddogaeth Caffael yn ceisio manteisio ar y cyfrifoldeb hwn i sicrhau bod y sefydliadau hynny yn ein cadwyni cyflenwi allanol a'n his-gontractwyr yn cydnabod, yn mabwysiadu ac yn cymhwyso arferion busnes priodol sy'n gyfrifol yn gymdeithasol, yn economaidd ac yn amgylcheddol yn eu gweithrediadau hwythau.

Mae'r arferion priodol hyn yn cynnwys:

1. cael gwared ar lygredd, camelwa, gwahaniaethu, caethwasanaeth, llafur dan orfod neu orfodol
2. sicrhau arferion talu'n deg
3. hawliau ac amodau cyflogaeth priodol
4. amodau gweithio diogel
5. annog cynhwysiant ac amrywiaeth
6. lleihau gwastraff, lleihau defnydd ynni, allyriadau carbon a hyrwyddo cynlluniau lleihau, ailgylchu, ailddefnyddio
7. sicrhau cydraddoldeb o ran triniaeth

Cydnabyddwn fod ein cyflenwyr yn gweithredu mewn amrediad eang o ddiwydiannau, amgylcheddau a diwylliannau, ac y byddant yn dehongli cyflenwi moesegol mewn ffyrdd gwahanol.

Credwn mewn cefnogi'r egwyddorion sylfaenol sy'n cael eu hyrwyddo gan sefydliadau a safonau fel 'Centenary Standards Initiatives' y Sefydliad Llafur Rhyngwladol, 'Global Compact' y Cenhedloedd Unedig neu God Sylfaenol y Fenter Masnachu Moesegol.

Mae ein hamcanion polisi'n canolbwyntio ar hyrwyddo'r safonau ac arferion hyn o fewn cyd-destun rhoi sylw i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015[1] a Datganiad Polisi Caffael Cymru[2]. Mae'r Datganiad yn diffinio gwerth am arian fel:

"y cyfuniad gorau posibl o gostau oes gyfan o ran sicrhau arbedion a chanlyniadau o safon uchel ar gyfer y sefydliad, a hefyd dylai fod o fudd i gymdeithas a'r economi a'r amgylchedd yn awr ac yn y dyfodol."

AMCANION POLISI MOESEGOL

Nod y polisi hwn yw ymdrin â'r amcanion hyn drwy sicrhau ein bod yn bodloni ein hymrwymiadau o dan Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015[3]; Deddf Cydraddoldeb 2010[4]; a Chyflogaeth Foesegol mewn

---

[1] https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-06/easy-read-a-guide-to-the-wellbeing-of-future-generations-act.pdf
[2] https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-09/wales-procurement-policy-statement.pdf
[3] http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2015/30/contents/enacted

[4] http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/contents

Cadwyni Cyflenwi Llywodraeth Cymru: Cod Ymarfer[5] wrth gefnogi ein strategaethau cynaliadwy[6] i gyfrannu at gymdeithas decach (link).

Mae'r Cod Ymarfer yn bwriadu sicrhau bod gweithwyr mewn cadwyni cyflenwi sector cyhoeddus yn cael eu cyflogi'n foesegol, gan drafod caethwasiaeth fodern a cham-drin hawliau dynol, cosbrestru, hunan-gyflogaeth ffug, defnydd annheg cynlluniau ymbarèl a chontractau dim oriau a thalu'r Cyflog Byw.

Wrth gyflenwi'r amcanion hyn bydd yr adran Gaffael yn:

Ymchwilio i bob haen ei chadwyni cyflenwi yn yr holl brif nwyddau hyd eithaf ei gallu a defnyddio'r wybodaeth hon am y farchnad i nodi cyfleoedd am ddatblygiad moesegol a dileu arferion annheg.

Annog ein holl gyflenwyr a'u his-gontractwyr hwy i dalu'r Cyflog Byw. Mae'r Brifysgol yn gyflogwr Cyflog Byw Gwirioneddol Achrededig ac rydym yn ymdrechu i sicrhau lle bo'n bosibl ac yn gyfreithiol bod ein cyflenwyr yn ymrwymo i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol.

Ar gontractau allanol allweddol, mae'r brifysgol yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl staff sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan gontractau gael y Cyflog Byw ac sy'n cynnal cyflog cyfartal.

Defnyddio cwestiwn Arferion Gweithio teg[7] Llywodraeth Cymru yn safonol yn ei holl weithgareddau tendro i helpu i bwysleisio ei bwysigrwydd.

Annog ein holl gyflenwyr i ufuddhau'n wirfoddol i God Ymarfer Llywodraeth Cymru.

Byddwn yn ymchwilio i gais unrhyw gyflenwr sydd yn ôl pob golwg yn annormal o isel er mwyn sicrhau bod y cyflenwr yn bodloni ei rwymedigaethau dan gyfreithiau amgylcheddol, cymdeithasol a llafur, ac nad yw'n ceisio sicrhau mantais annheg drwy ddefnyddio arferion fel hunan-gyflogaeth ffug.

Sicrhau bod ein holl Delerau ac Amodau contractau'n parhau i roi sylw i'n hymrwymiad moesegol ac yn caniatáu i ni derfynu unrhyw gontract am dorri'r ddeddf hawliau dynol neu unrhyw ymchwiliad ffurfiol mewn perthynas â hawliau cyflogaeth neu droseddau o dan y Ddeddf Caethwasiaeth Fodern.

Datblygu cyfres newydd o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol i ymdrin â'n hymrymiadau moesegol fel rhan o'r broses rheoli contractau. Caiff hyn ei gyflwyno yn y pen draw i'n partneriaid gwasanaeth allweddol a bydd hyfforddiant yn cael ei ddarparu i dimau perthnasol fel Ystadau, Cyfleusterau a Gwasanaethau Masnachol.

Parhau i sicrhau bod ein holl gontractau cyflenwi yn dal i bwysleisio pwysigrwydd cynhwysiant, amrywiaeth a pharch am y nodweddion gwarchodedig a enwir yn Neddf Cydraddoldeb 2010, h.y. oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

Trwy aelodaeth Consortiwm Prynu Addysg Uwch, Cymru[8], gweithio ar y cyd i roi sylw i gaffael moesegol a cheisio mabwysiadu a gweithredu ateb meddalwedd addas i gefnogi'r gweithgarwch hwn.

Cyflwyno hyfforddiant am gyflogaeth foesegol i staff y Brifysgol, trwy gyfrwng cynefino corfforaethol a hyrwyddo fideos hyfforddi'r Cod Ymarfer Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi[9]

---

[5] https://gov.wales/ethical-employment-supply-chains-code-practice-guidance-and-training
[6] https://www.cardiffmet.ac.uk/about/sustainability/Pages/Policies,-Strategies-and-Plans.aspx
[7] https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-09/code-of-practice-guide-to-implementing-the-living-wage-through-procurement.pdf
[8] http://www.hepcw.ac.uk/
[9] https://www.youtube.com/watch?v=Dh7xovObIvU

Parhau i gynnig mecanwaith i'n cyflenwyr neu aelodau'r cyhoedd allu adrodd unrhyw beth sydd yn eu barn hwy'n gyflogaeth neu arferion gweithio annheg neu amhriodol mewn unrhyw agwedd ar gadwyni cyflenwi'r Brifysgol. Bydd dolen â manylion polisi Chwythu'r Chwiban[10] y Brifysgol yn cael eu cynnwys nawr yn ein holl ddogfennaeth dendro.

Parhau i gynnal amserlen dalu deg i sicrhau bod ein holl gyflenwyr yn cael eu talu o fewn 30 diwrnod ar ôl derbyn anfoneb ddilys.

Sicrhau bod unrhyw gontractau sy'n cael eu gosod i asiantaethau recriwtio yn sicrhau bod unrhyw berson a gyflogir yn y Brifysgol yn cael ei gyflogi ar yr un radd â chyflogai'r Brifysgol sydd yn yr un rôl.

ACHREDIAD MASNACH DEG

Mae'r Brifysgol yn cydnabod bod pennu enwau brand fel meini prawf dethol neu ddyfarnu yn ei gweithgarwch tendro yn debygol o fod yn groes i'r rhwymedigaethau gwrth-gyfyngol a bennir yn Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015[11]. Gan hynny, ar yr un pryd â hybu rhai safonau a gydnabyddir yn rhyngwladol, mae polisi Cadwyni Cyflenwi Moesegol y Brifysgol yn osgoi'n fwriadol defnydd unrhyw frand masnachol neu enwau masnach.

O ganlyniad, er bod y Brifysgol wedi cyflawni a chynnal achrediad 'Prifysgol Masnach Deg', mae hyn yn cael ei lywodraethu gan bolisi Masnach Deg[12]. ar wahân sy'n trafod y gofyniad achrediad hwn ac yn atodol i'r polisi Cadwyni Cyflenwi Moesegol hwn.

CADWYN GYFLENWI FEWNOL

Mae'r Brifysgol yn cydnabod bod y blaenoriaethau a bennir yn y polisi hwn yn berthnasol yn eu tro i'n sefydliad ein hunain ac, o ganlyniad, mae'r Brifysgol:

Wedi datblygu Fframwaith Polisi Cyflogaeth sy'n nodi disgwyliadau'r cyflogwr a chyflogeion

Wedi sefydlu cynllun gwerthuso swyddi er mwyn sicrhau cydraddoldeb tâl

Yn sicrhau bod telerau ac amodau cyflogaeth ar gael yn hwylus ar safle mewnrwyd y Brifysgol

Wedi sefydlu Arweiniad i Weithwyr Asiantaeth sydd wedi'i weithredu i sicrhau bod gweithwyr asiantaeth yn deall eu hawliau

Yn ei gwneud yn ofynnol i bob aelod staff newydd gwblhau rhaglen gynefino ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth sy'n rhoi modiwl am bob agwedd ar driniaeth gyfartal yn ogystal ag agweddau ehangach ar gaethwasiaeth fodern a chyflogaeth foesegol mewn cadwyni cyflenwi allanol

Wedi adolygu ei Pholisi[13] a Gweithdrefn Chwythu'r Chwiban ac wedi'u diweddaru i adlewyrchu'r ymrwymiadau hyn.

Fersiwn 7 Mai 2022

---

[10] https://www.cardiffmet.ac.uk/about/structureandgovernance/Pages/Whistleblowing.aspx
[11] http://www.legislation.gov.uk/uksi/2015/102/pdfs/uksi_20150102_en.pdf
[12] https://www.cardiffmet.ac.uk/about/policyhub/Pages/default.aspx
[13] https://www.cardiffmet.ac.uk/about/structureandgovernance/Pages/Whistleblowing.aspx